

Barn, Hydref 2021 gan Menna George

Mae'r gwragedd sy'n cael eu rhoi ar y ddaear hon i fod yn geffylau blaen sy'n gweithredu yn ogystal â'n siarad am weithredu yn gymharol brin yn fy mhrofiad i. Roedd fy ffrind annwyl, Hazel Charles Evans yn un o'r ychydig wragedd hynny,

Ychydig â feddyliais wrth ymrestru ar gwrs 'Spanish For Holidaymakers' yng Ngholeg Gorseinon ym 1996 y basai hyn yn arwain at gyfeillgarwch arbennig gydag enaid hoff gytun.

Daeth i'r amlwg yn y dosbarth cyntaf un ein bod ein dwy â'n bryd ar fynd, rhywbryd yn ein dyfodol, i'r Wladfa i weithio a byw. Daeth y cyfle i ran Hazel neu 'Collen' fel baswn i'n ei galw cyn i ni orffen ein blwyddyn o'r cwrs Sbaeneg hwnnw. I ffwrdd â hi gyda chyffro a bwriad yn ei cham i'r Andes ym Mawrth 1997 yn un o'r tri athro cyntaf gyflogwyd erioed ar 'Gynllun Yr Iaith Gymraeg' ym Mhatagonia. Cynllun oedd, ac yw hwn, sy'n cael ei drefnu a'i ariannu gan Y Cyngor Prydeinig (Cymru) [Y Swyddfa Gymreig yn wreiddiol], Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Cymru-Ariannin. Ac roedd Hazel yn angerddol dros 'Y Cynllun' a Chymdeithas Cymru-Ariannin gan eu bod ill dau yn annog, hyrwyddo ac yn hwyluso dau achos roedd hi yn angerddol yn eu cylch: y Gymraeg a'i Duw.

Ers yn groten ifanc ar Y Bryn, Llanelli dangosodd Hazel gariad arbennig tuag at ei gwlad, ei hiaith a'i Duw. Cafodd ei magu ar aelwyd ddwyieithog lle'r oedd yna barch at iaith a diwylliant. Yn aml basai'n sôn am ei dyled i'w magwraeth yn y ffydd yn Ysgol Sul Soar Llwynhendy – nid yn unig am estyn ar ei dealltwriaeth o a'i chariad tuag at ei Duw a'i Beibl ond hefyd, am roi iddi hyder gyhoeddus.

Yn sicr, mi ddefnyddiodd Hazel yr hyder yma yn effeithiol ar hyd ei hoes. Roedd yn siaradwraig yr un mor wybodus a diddanus mewn cwrdd a chyfarfod cyhoeddus ac yr oedd yng nghwmni un neu ddau yn ei hannwyl 'Llais Yr Andes' yn Llandybie. Byddai hi'n ymchwilio ei maes yn llawn cyn siarad, yn sicrhau cywirdeb ei ffeithiau a'i gwybodaeth cyn meddwl dweud dim. Llestr oedd ei dawn areithio i ledaenu ei chenadwri. Hyd y diwedd, roedd golygon Hazel tuag at y dyfodol – ysgrifennodd neges obeithiol, sbardunol a darllenwyd yn rali 'Nid Yw Cymru Ar Werth' Cymdeithas yr Iaith yn Nhryweryn wedi ei marw yng Ngorffennaf. Gymaint oedd cariad Hazel tuag at Gymru a'i dyfodol nes ei bod yn tristáu yn fawr yn ei dyddiau olaf nid yn gymaint oherwydd bod cancr yn mynd i'w threchu y tro yma, ond yn fwy oherwydd ei fod yn ei rhwystro rhag annerch y dorf yn Nhryweryn. Dyna oedd dyfnder cariad Hazel tuag at Y Gymraeg, at Gymru ac at ei phobl.

Cyn ei hymddeoliad roedd Hazel yn athrawes yn Ysgol Y Bryngwyn, Llanelli. Swydd dysgu Gymraeg ail-iaith oedd hi ac er y dalcen galed roedd y swydd yn gallu bod, roedd Hazel yn gweld bod gwaith ganddi i'w wneud yn taenu hadau'r Gymraeg i'r digybllion ac yn ceisio dyfrhau'r hadau hynny gyda'i brwdfrydedd heintus ym mhob gwers. Ac rwy'n gwybod am o leiaf un achos llwyddiannus iawn o'i dylanwad a adenillodd Y Gymraeg i deulu.

Pan roeddwn i'n bennaeth ar Ysgol Gymraeg Llundain roedd gen i deulu yn mynychu yno a'r tad yn dod o Lanelli. Roedd yn ddysgwr rhugl a brwdfrydig ac o sgwrsio gydag ef daeth i'r amlwg bod Hazel wedi bod yn athrawes arno yn Y Bryngwyn. Yng ngeiriau'r dyn ei hun, doedd e ddim yn ddisgybl 'da'. Ddim yn parchu'r Gymraeg na'r angen am wersi Gymraeg yn ei ddyddiau ysgol ond roedd yr hadau a daenwyd o'i flaen gan Hazel flynyddoedd yn gynt wedi egino ac yn awr yn

cael eu medi yn Llundain bell ynddo ef a'i blant. Roddais i'r cyn-ddisgybl a'r gyn-athrawes Gymraeg mewn cysylltiad â'i gilydd eto ac o, mor falch oedd Hazel o weld ffrwyth ei llafur!

Roedd yr un yn wir am weledigaeth Hazel draw yn Y Wladfa – tra'r oedd hi yna a byth oddi ar hynny. Roedd yn denu plant i'w gwersi trwy greu gwersi o'r pethau o ddiddordeb iddyn nhw – gemau; gweithgareddau hamdden; actio; cystadlu mewn eisteddfodau; mynd am ysgytlaeth ar fore Sadwrn ... roedd y gweithgareddau yn ddi-ben-draw. Os fuodd yna berson hŷn ifanc ei ffordd erioed, Hazel oedd honno!

Ffydd a gobaith oedd yn ei harwain. Mynnai bod yna ffyrdd o ddwyn meini i'r wal (yn ogystal â briciau – i adeiladu canolfan i ddysgu ac hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant yn ei hannwyl Esquel a'r Andes ym Mhatagonia). Gweithiodd yn ddi-baid dros ail-ddechrau gwasanaethau Cymraeg rheolaidd yn y capeli yn Yr Andes; sbardunodd angerdd at yr iaith unwaith eto yng Nghymru a'r Ariannin (gan helpu dau o draw i lwyddiant wrth ennill 'Dysgwr y Flwyddyn' yn ogystal ag helpu i adennill y Gymraeg ar aml i aelwyd yn y ddwy wlad); sefydlodd wobr ariannol yn Y Wladfa i'w roi i un disgybl y flwyddyn ym mhob un o'r pump ysgol/canolfan Gymraeg sydd yn gwneud yr ymdrech fwy gyda'r Gymraeg. Am weledigaeth ac unwaith eto, yn hau hadau'r Gymraeg mewn ffydd.

Roedd Hazel yn benderfynol ac o ddifrif am ei hachosion. Os roedd angen dweud rhywbeth, basai hi'n dweud. Os roedd angen gwneud rhywbeth basai hi'n gwneud. Doedd ganddi ddim parch at bobl oedd yn 'siarad wast' ond nid dynes sych-dduwiol oedd hi o bell ffordd. I'r rheini oedd yn ei hadnabod ac wedi treulio amser gyda hi, byddwn yn cofio hefyd ei ffraethineb chwareus. Mae'n amhosib cofio sawl gwaith i Hazel roi 'proc' tawel yn fy ystlys (pan roeddwn dal yn rhydd, rwy'n hastio i ddweud) pan basai'n gweld dyn roedd hi'n meddwl oedd yn ddeunydd cymar arfaethedig i fi a sibwrdd "Êêê, nawrte Menna, beth am gydio yng nghoes hwnna te?" Roedd hi'n ddrygionus!

Wrth gwrs, y Gymraeg a'r Wladfa oedd yr hyn a'n tynnodd at ein gilydd ond wrth ddod i adnabod Hazel dros y blynyddoedd gallwn i ddim llai na'i chael yn fwyfwy hoffus, yn fwyfwy direidus, yn fwyfwy triw, yn fwyfwy angerddol, yn fwyfwy gwybodus, yn fwyfwy doeth, yn fwyfwy o destun edmygedd trwy'r amser. Am berson arbennig i gael y ffrind o'i galw'n ffrind.

Dros wythnosau olaf ei bywyd tyfodd fy edmygedd ohoni a fy mharch tuag ati fyth mwy. Trwy ei her olaf disgleiriodd ei chariad hi at ei Duw, at Gymru, at y Gymraeg, at Y Wladfa, ac at ei ffrindiau yn fwy amlwg nag erioed. Rwy'n ddiolchgar am fod wedi cael cydgerdded rhan o'i thaith gyda hi dros y 24 blwyddyn olaf yma. Yng Ngorffennaf eleni mi gollodd Cymru a'r Wladfa gymwynaswraig fawr gyda'i phasio hi i'r byd nesaf at ei Gwaredwr.

"Hasta mañana, Collen annwyl" ... "Tan y tro nesa".

Menna M George

